**Pwyllgor Datblygu Economaidd** **EDC 07-02(draft min)**

**COFNODION**

**Dyddiad** **24 Ebrill 02**
**Amser** **2.00 – 5.30pm**
**Lleoliad** **Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd**

**Yn bresennol**

| **Aelodau** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Chris Chapman | Cwm Cynon |
| Andrew Davies (Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd) | Gorllewin Abertawe |
| David Davies | Mynwy |
| Ron Davies | Caerffili |
| Mike German | Dwyrain De Cymru |
| Christine Gwyther (Cadeirydd) | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Alison Halford | Delyn |
| Elin Jones | Ceredigion |
| Dafydd Wigley | Caernarfon |
| Phil Williams | Dwyrain De Cymru |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Derek Jones | Cyfarwyddydd, Materion Economaidd, Trafnidiaeth, Cynllunio a’r Amgylchedd |
| David Pritchard | Cyfarwyddydd, Adran Datblygu Economaidd |
| Allan Moss | EPD |
| Caroline Turner | WEFO |
| Emyr Roberts | EPD |
| Jackie Brown | EEAD |
| Steve Marshall | SD |
| Jake Chapman | Ymgynghorydd Arbenigol ar yr Adolygiad Ynni |
| Mike Clancy | ICM |

**Ysgrifenyddiaeth**

| | |
|---|---|
| John Grimes | Clerc |
| Sian Wilkins | Dirprwy Glerc |

**Eitem 1: Sylwadau agoriadol y Cadeirydd.**

1. Yn absenoldeb Christine Gwyther yn ystod rhan gyntaf y cyfarfod cytunwyd y byddai Ron Davies yn cadeirio’r cyfarfod tros dro.
2. Gofynnodd yntau ar i’r datganiadau buddiant a wnaed yn y cyfarfod blaenorol gael eu nodi a gofynnodd ymhellach ar i aelodau a fyddai’n datgan buddiant yn y cyfarfod hwn i ddatgan buddiant / buddiannau newydd yn unig.

**Eitem 2: Grant Buddsoddi’r Cynulliad**

1. Cyflwynwyd y papur gan y Gweinidog a ddywedodd bod Grant Buddsoddi’r Cynulliad, a lansiwyd yn ddiweddar, wedi ei anelu’n benodol at fwlch yn y farchnad gymorth o ran cynnig grantiau cyfalaf rhwng £5000 a £50000. Mae wedi ei gynllunio i ategu cymorth o fathau eraill sydd ar gael trwy Awdurdod Datblygu Cymru, ELWa a’r Awdurdodau Lleol a’i bod yn bwysig bod y grant hwn yn cynnig cymorth i gwmnïau ym mhob rhan o Gymru ac nid rhai o fewn rhanbarthau cymorth yn unig. Dywedodd bod y cynllun wedi derbyn ymateb positif iawn ac wedi ennyn nifer fawr o ymholiadau.
2. Cwestiynwyd amseriad y lansio gan rai aelodau gydag awgrym nad oedd y cynllun newydd ond wedi ychwanegu cynllun cyllido arall i farchnad sydd eisoes yn un ddryslyd. Awgrymwyd hefyd y byddai wedi bod yn ddoeth ystyried yr holl argymhellion a geir o fewn adroddiad PWC ar amrywiadau ariannol a’r gwaith sydd wrthi’n cael ei wneud gan Awdurdod Datblygu Cymru ar resymoli cefnogaeth i fusnesau cyn mynd ati i lansio’r fenter newydd hon.
3. Cadarnhaodd y swyddogion eu bod yn ceisio symleiddio nifer y cynlluniau grant sy’n bodoli a disgwylir y bydd y gwaith sy’n cael ei wneud gan Awdurdod Datblygu Cymru'n cael ei gwblhau cyn bo hir. Ychwanegwyd bod sicrhau cydweithio clos rhwng yr holl asiantaethau sy’n gweithredu yn y maes hwn yn un o elfennau’r strategaeth at ei gilydd. Yr oeddent yn ymroddedig i gynnal trafodaethau gydag Awdurdodau Lleol ynghylch cynigion i ddatblygu cynlluniau sydd â safonau cyffredin iddynt, ond nodwyd bod y Grant Buddsoddi'n gynllun cenedlaethol a theimlwyd ei bod yn bwysig llenwi’r bwlch yn y cyllid sydd ar gynnig i Fusnesau Bychain a Chanolig a hynny’n ddi-oed.
4. Gofynnodd yr aelodau pa ddylanwad y gallent hwy ei gael ar y cynllun bellach gan ei fod eisoes wedi ei lansio. Daeth y Cadeirydd i’r casgliad nad oedd amseriad y drafodaeth a’r lansio’n foddhaol ac nad oedd yn sefyllfa y carai ei gweld yn digwydd eto. Awgrymodd hefyd y gallasai’r Gweinidog fod wedi cynnig diweddariad o gynnwys y papur gwreiddiol, a anfonwyd at y Pwyllgor yn gyntaf ym mis Rhagfyr 2001, ar gyfer y cyfarfod hwn.
5. Gofynnwyd cwestiynau gan yr Aelodau ynghylch sawl un o’r argymhellion sydd i’w

cael yn yr adroddiad PWC a chytunodd y Gweinidog i ddarparu papur ychwanegol ar hyn a chaiff ei gynnwys yn yr eitem ar amrywiadau cyllidol a drefnwyd ar gyfer 8 Mai. **[Cam Gweithredu : Gweinidog DE]**

6. Mynegwyd pryder ynghylch y gwahaniaethau mewn arian grant rhwng y naill awdurdod lleol a'r llall ond dywedodd y swyddogion bod gan yr awdurdodau lleol hawl i redeg eu cynlluniau eu hunain a'u bod yn gobeithio y byddent bellach yn teilwra'u cynlluniau fel eu bod yn ategu'r Grant Buddsoddi ac yn ymateb ac yn ymdrin ag anghenion o fewn eu hardaloedd eu hunain. Gobeithir hefyd y byddai'r awdurdodau lleol yn ailgyfeirio'r cyllid sydd ganddynt hwy tuag at lefel islaw'r trothwy cychwynnol a gynigir gan y Grant Buddsoddi sef £5000.
7. Tynnodd un aelod sylw at y problemau sy'n wynebu unigolion sydd wedi buddsoddi eu harian eu hunain yn y gwaith o ddatblygu syniad ac yna'n canfod nad oeddent yn gymwys i dderbyn cymorth pellach. Dywedodd y Gweinidog bod hyn yn pwysleisio pa mor bwysig yw hi i farchnata cynlluniau'n effeithiol ond dywedodd hefyd y byddai'n gofyn i'r swyddogion ystyried sylwadau'r Aelod.
8. Awgrymwyd y dylai bod mwy o gynrychiolaeth o blith y gymuned busnesau bychain wedi cael ei sicrhau ar y grwp gorchwyl a gorffen. Dywedodd y Gweinidog bod Roger Jones wedi cynrychioli Sefydliad y Cyfarwyddwyr a bod Ffederasiwn y Busnesau Bychain hefyd wedi croesawu'r cynllun grant.

**Eitem 3: Y Gymuned Ewropeaidd a Chydlyniad**

1. Wrth gyflwyno'r papur, cyfeiriodd y swyddogion at y Seminar ar Gydlyniad a fynychwyd gan aelodau'r Pwyllgor Datblygu Economaidd ym mis Mai 2001. Nodwyd ymhellach gan y swyddogion mai ond ychydig o gynnydd 'gwleidyddol' a gyflawnwyd ers hynny ond bod y trafodaethau technegol wedi parhau. Bydd gweithdy technegol yn cael ei gynnal ym Mrwsel cyn bo hir. Bydd Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol yn cael ei chynrychioli yn y digwyddiad hwnnw gan un o'r swyddogion a chytunodd y Gweinidog y byddai aelodau'r Pwyllgor Datblygu Economaidd yn derbyn adborth ar y canlyniadau.
2. Nododd yr aelodau'r sylwadau a fynegwyd gan Weinyddiaeth flaenorol y Deyrnas Unedig ynghylch y graddfeydd ariannol yn y dyfodol parthed arian strwythurol a'r cynigion a wnaed gan rai gwledydd eraill o fewn y Gymuned Ewropeaidd wrth ymateb i'r Ail Adroddiad ar Gydlyniad Economaidd a Chymdeithasol a fyddai'n golygu bod rhai sefyllfaoedd lle na fyddai unrhyw gymorth yn dod i Gymru. Gofynnodd yr Aelodau a oedd Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol wedi mabwysiadu ei safbwynt ei hunan ar ddyfodol yr arian strwythurol. Dywedodd y Gweinidog bod y Prif Weinidog eisoes wedi ysgrifennu at y Comisiynydd Barner, a bod copi o'r llythyr wedi ei anfon at yr aelodau, a'i fod wedi dweud y dylai penderfyniadau am y dyfodol gael eu seilio ar y dadansoddiad mwyaf manwl bosib o'r arian strwythurol hyd yma. Yr oedd llythyr y Prif Weinidog wedi cynnwys y sylw bod Cymru'n bryderus ynghylch dirwyn cefnogaeth arian strwythurol i ben yn ddisymwth y tu allan i fframwaith sy'n cydnabod yr anghenion sy'n parhau i

fodoli yng Nghymru.

3. Holodd yr aelodau am y ffigyrau yn Atodiad A a B o’r papur a nodi bod y cymariaethau rhwng y rhanbarthau’n amrywio gan ddibynnu a oeddynt wedi eu seilio ar boblogaeth yn ôl man preswylio neu fan gweithio. Mynegwyd pryder y gallasai hyn olygu bod cymariaethau a wneir â rhannau eraill o Ewrop yn anghywir. Cytunodd y swyddogion y byddai’r seiliau gwahanol yn arwain at ganlyniadau gwahanol ond bod sail gwybodaeth Arolwg y Gweithlu yn gyson ar draws Ewrop gyfan.
4. Yr oedd yr aelodau’n awyddus i glustnodi pa sail oedd yn rhoi’r darlun gorau ar gyfer Cymru a gofynnwyd am bapur yn dangos y Cynnyrch Mewnwladol Crynswth yn ôl y pen ar gyfer rhanbarthau o fewn y DU, ac yng ngweddill Ewrop, ar sail y boblogaeth breswyl, y boblogaeth weithio, a’r boblogaeth yn gyfan. Dywedodd y swyddogion bod posibilrwydd na fyddai gwybodaeth gyson i’w chael ar bob rhanbarth ac ar bob sail gan awgrymu y byddai’n fwy defnyddiol i’r aelodau gael cyfarwyddyd anffurfiol ar y pwnc. Cytunodd yr aelodau â’r awgrym hwn ond gan ddweud y byddai'n debygol y byddai angen iddynt glywed cyflwyniad mwy ffurfiol i’r Pwyllgor wedi hynny. **[Cam Gweithredu : Clerc / Gweinidog DE].**
5. Cyfeiriwyd at y ffaith bod yr Adran Masnach a Diwydiant yn comisiynu Prifysgol Strathclyde a chwmni Fraser Associates i wneud astudiaeth dichonoldeb yn unol â’r cyfeiriad a wnaed ym mharagraff 20 o’r papur. Gobaith yr aelodau oedd y byddai’r canlyniadau’r astudiaeth yn cael eu cyhoeddi a dywedodd y Gweinidog, gan nodi mai’r Adran Masnach a Diwydiant (DTI) oedd yn arwain yn y mater hwn, y byddai’n mynd ati i sefydlu beth yn union yw eu bwriadau. **[Cam Gweithredu : Gweinidog DE]**
6. Nododd y Gweinidog mai Llywodraeth y DU sydd â’r cyfrifoldeb arweiniol am y trafodaethau ar ddyfodol yr arian strwythurol a dywedodd bod Cymru’n cymryd rhan weithgar yn y rhain ac yn ceisio sicrhau bod Llywodraeth y DU yn llawn gydnabod anghenion Cymru.

**Cadeiriwyd gweddill y cyfarfod gan Christine Gwyther.**

**Eitem 4: Yr Adolygiad Ynni – Effeithlonrwydd Ynni**

1. Rhoddodd y Cadeirydd amlinelliad o’r Atodiad i’r papur, sy’n crynhoi’r materion sy’n berthnasol i effeithlonrwydd ynni a thynnu sylw at y rhwystrau sy’n bodoli rhag mabwysiadu rhaglenni gwella. Tynnodd yr Ymgynghorydd Arbenigol sylw at 2 faes neilltuol lle bu rhaglenni i wella effeithlonrwydd ynni’n nodedig o aflwyddiannus. Un o’r rhain oedd adeiladau tai domestig a’r llall oedd adeiladau masnachol. Yn y naill achos fel y llall roedd cost ynni fel cyfran o’r gwariant cyfan yn gymharol fychan ac yn syml iawn nid oedd dim cymhelliad i ysgwyddo'r gost o wneud y gwaith a fyddai'n arwain at arbedion.
2. Wrth drafod y materion hyn, nododd yr aelodau bod ystod eang o gyrff bellach yn cymryd rhan ym maes effeithlonrwydd ynni a bod rhai ohonynt yn dod o fewn

cylch gwaith y Cynulliad, er nad o reidrwydd o fewn maes y Pwyllgor Datblygu Economaidd, a bod rhai o'r cyrff y tu allan i gylch gwaith y Cynulliad. Byddai'n bwysig cadw'r gwahaniaethau hyn mewn cof wrth lunio argymhellion. Cytunwyd y dylid cyflwyno papur pellach i'r Pwyllgor gan glustnodi'r camau gweithredu y byddai modd i'r Cynulliad a chyrff eraill eu cymryd fel y gellid ystyried eu cynnwys yn argymhellion y Pwyllgor. Yn ystod y broses hon byddai gofyn i'r Pwyllgor ystyried a oes angen trafodaethau ar y cyd gydag adrannau eraill o fewn y Cynulliad ynteu oes angen casglu rhagor o dystiolaeth.

3. Dywedodd yr aelodau y gallai'r Cynulliad ddangos y ffordd o ran hybu a hyrwyddo effeithlonrwydd ynni trwy gyfrwng y drefn caffael cyhoeddus sydd ganddo a chan y cyrff eraill y mae'n cydweithio â hwy.
4. Tra'n cydnabod nad oedd yn fater sy'n rhan o'r cylch gwaith presennol, mynegwyd pryderon gan yr aelodau ynghylch yr ystyriaethau economaidd sydd ynghlwm wrth y gwaith o ddatblygu mathau newydd o danwydd i gerbydau modur. Awgrymwyd y gellid ystyried rhoi cymorth i fodurdai i'w hannog i osod pympiau cyflenwi Nwy Pwysedd Isel (LPG). Cyfeiriodd y Gweinidog at rôl y fforwm cerbydau a'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Brifysgol Caerdydd. Dywedodd y byddai'r Brifysgol yn gwneud cyflwyniad i'r Pwyllgor fel rhan o'r broses ymgynghori ar ynni adnewyddadwy.
5. Cytunodd yr Ymgynghorydd Arbenigol i ddarganfod beth yw manylion cymhwysedd y cynllun WarmFront Plus yng Nghymru ac a yw'n gwahaniaethu o gwbl oddi wrth ofynion y cynllun yn Lloegr. **[Cam Gweithredu : Ymgynghorydd Arbenigol]**
6. Holodd rhai aelodau am y gost y mae busnesau'n ei wynebu o ran y Lefi Newidiadau yn yr Hinsawdd a faint o'r arian a dderbynnir drwy'r lefi sy'n bwydo'n ôl i fyd busnes. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu'r wybodaeth hon. **[Cam Gweithredu : Gweinidog DE.]**
7. Cytunodd yr aelodau ag awgrym i beidio â symud tuag at gynhyrchu adroddiad ar effeithlonrwydd ynni ar hyn o bryd ond, yn hytrach, y byddai'n fwy dymunol ehangu cyfnod presennol yr astudiaeth i gynnwys Gwresogi a Ph^wer Cyfun a chasglu rhagor o dystiolaeth yn y maes hwnnw. Byddai hyn yn golygu na fyddai adroddiad nesaf y Pwyllgor yn barod i'w ystyried nes y byddai'n dychwelyd wedi gwyliau'r haf.
8. I grynhoi, dywedodd y Cadeirydd :

- Y byddai'r papur yn awr yn cael ei adolygu a'i ehangu fel ei fod yn adlewyrchu'r safbwyntiau a fynegwyd gan yr Aelodau;

- Byddai cylch gwaith a rhaglen yr Adolygiad yn cael ei addasu fel eu bod yn cynnwys, i raddau cyfyngedig, ystyried materion sydd yn ymwneud â thanwydd cludiant;

- Byddid yn ystyried y rhyngweithio sy'n digwydd rhwng y Pwyllgor Datblygu

Economaidd a phwyllgorau eraill yn y maes gwaith hwn;

- Byddai’r cyfnod hwn o fewn yr adolygiad yn cael ei ehangu i gynnwys Gwresogi a Ph^wer Cyfun o fewn y cam hwn o gynnal yr adolygiad.

9. Adroddodd y Gweinidog y byddai cyn bo hir yn cyflwyno adroddiad yn y Cyfarfod Llawn ar ymateb Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol i’r adroddiad PIU.

**Eitem 5: Adroddiad y Gweinidog.**

1. Rhoddodd y Gweinidog adroddiad llafar byr am y datblygiadau diweddaraf gyda’r manylion amdanynt ynghlwm wrth ei adroddiad ysgrifenedig. Gan ymateb i gwestiynau ynghylch ffyniant economi’r DU cytunodd y Gweinidog y byddai’n darparu gwybodaeth gymharol ynghylch costau busnes yn yr UDA, Taiwan, Gweriniaeth Tsiecoslofacia a’r GE**. [Cam Gweithredu : Gweinidog DE]**
2. Diolchodd y Cadeirydd i’r Gweinidog ac aelodau’r Cynulliad am eu cefnogaeth gyson a pharhaus yn ystod cyfnod y problemau sy’n gysylltiedig â chwmni ITV Digital yn Noc Penfro. Cadarnhaodd y Gweinidog bod Llywodraeth y Cynulliad, Awdurdod Datblygu Cymru, ELWa ac asiantaethau eraill yn gweithio’n glos gyda’r cwmni ac ei fod yntau wedi cysylltu â’r undebau llafur. Roedd y Prif Weinidog hefyd wedi ymweld â’r safle ac wedi talu teyrnged i agwedd y staff yno. Ychwanegodd ei fod ef yn hyderus bod y safle mewn sefyllfa dda i ddenu diddordeb gan gwmnïau eraill pe byddai ITV Digital yn tynnu allan.
3. Mynegwyd pryder bod economi Cymru'n ymddangos fel ei bod yn dibynnu fwyfwy ar y sector canolfannau galwadau. Dywedodd y Gweinidog mai dim ond 2.5% o’r gyflogaeth yng Nghymru oedd yn dod o fewn y sector hwn a’i bod yn bwysig peidio â gor-ymateb i adroddiadau unigol am golli swyddi. Gofynnodd un aelod ar i’r Gweinidog gymryd gofal rhag cynnwys gwybodaeth am swyddi newydd yn ei adroddiadau pan oedd y rheiny eisoes wedi eu cynnwys mewn adroddiadau blaenorol.
4. Cytunodd y Gweinidog y byddai’n darparu gwybodaeth bellach ynghylch natur a manylder y cyngor a gynigwyd i gwmnïau dur Cymreig mewn perthynas â gwneud cais am gael eu heithrio rhag y Tollau Mewnforio Dur yn yr UDA. **[Cam Gweithredu : Gweinidog D.E.]**
5. Dywedodd y Gweinidog ei fod ef yn hyderus bod y sefyllfa yn Prestige yn y T^y Du parthed y ddarpariaeth gogyfer â thaliadau diswyddo’n un gyfreithiol gywir. Cytunodd i ddarparu nodyn pellach i’r aelodau a fyddai’n cynnwys yr union fanylion. **[Cam Gweithredu : Gweinidog D.E.]**
6. Mynegodd y Cadeirydd anfodlonrwydd â’r amser yr oedd yn ei gymryd i WEFO roi cyfrif am faint o arian Amcan 1 oedd wedi ei wario yng Nghaerdydd. Nododd y Gweinidog y pryder hwn a dywedodd y byddai’n gallu darparu’r wybodaeth yn ystod tymor yr haf.

7. Gofynnodd aelod pa effaith fyddai'r gyfradd uwch o Yswiriant Cenedlaethol yn ei gael ar gyllideb y Pwyllgor Datblygu Economaidd o ystyried faint o bobl a gyflogir yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol drwy Awdurdod Datblygu Cymru /y Bwrdd Croeso ac asiantaethau eraill. Gofynnodd i'r Gweinidog baratoi papur ar gyfer y Pwyllgor yn y dyfodol agos. **[Cam Gweithredu : Gweinidog D.E.]**
8. Cyfeiriwyd at y lefel uwch o wasanaeth a fyddai'n deillio o'r cynnydd yn y cyllid sydd ar gael i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn Lloegr. Mynegwyd pryder y byddai'r gost o gyflawni datblygiadau tebyg yng Nghymru'n galw am ragor o arian nag a fyddai'n cael ei ddyfarnu i Gymru dan fformiwla Barnett. O ganlyniad, pe byddai Cymru i gadw'n gyfartal â Lloegr yn y maes byddai'n rhaid dargyfeirio adnoddau o raglenni eraill.
9. Mynegwyd pryder bod y cyhoeddiad yn y Gyllideb parthed credydau treth Ymchwil a Datblygu yn rhoi mantais anghyfartal i gwmnïau yn Ne-Orllewin Lloegr. Dywedodd y Gweinidog ei fod yn siomedig na chyflwynwyd darpariaeth a fyddai'n caniatáu amrywio rhanbarthol ond y byddai'n parhau i bwyso'n nerthol ar Lywodraeth y DU ynghylch y mater hwn.
10. Gofynnodd sawl aelod a oedd rhagor o swyddi'n debygol o gael eu colli yn y Bathdy Brenhinol yn Llantrisant. Cadarnhaodd y Gweinidog bod swyddogion mewn cysylltiad â hwy ac y byddai'n ymchwilio ymhellach i'r sefyllfa.
11. Cododd un aelod fater sy'n peri pryder i fusnesau bychain ym maes twristiaeth sef a fyddent yn cael eu gorfodi i dalu ffi cofrestru. Nododd yr aelodau bod datblygu cynllun cofrestru statudol wedi ei gynnwys fel elfen yn y llythyr cylch gwaith a anfonwyd at y Bwrdd Croeso ac y disgwylid argymhelliad gan y Bwrdd Croeso yn nes ymlaen yn yr haf.
12. Croesawodd un aelod y ffaith bod yr *Urban Regeneration Company* wedi ei sefydlu yng Nghasnewydd gan ddweud ei fod yn pwysleisio'r angen am bolisïau adfywio rhanbarthol llawer mwy cadarn.
13. Yn sgîl cyhoeddi Adroddiad y Pwyllgor Archwilio ar 'Sicrhau Dyfodol Bae Caerdydd', cytunodd y Gweinidog i ddarparu gwybodaeth bellach ynghylch y taliadau a wnaed gan Awdurdod yr Harbwr am y gwaith llifogydd.##boddi? **[Cam Gweithredu : Gweinidog D.E.]**
14. Ategodd y Cadeirydd bryder a fynegwyd gan aelod ynghylch adroddiad llafar y Gweinidog, sef y dylai fod yn cynnig y wybodaeth mwyaf cyfredol am y datblygiadau diweddaraf ac na ddylai gyfeirio at gyhoeddiadau blaenorol y gellid cyfeirio atynt yn yr adroddiad ysgrifenedig. Gan ymateb i gais am fanylion pellach ynghylch y trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ar Fformiwla Barnett, dywedodd y Gweinidog nad oedd mewn sefyllfa i wneud unrhyw sylw ffurfiol ar drafodaethau y gallasai'r Gweinidog dros Gyllid fod yn eu cynnal gyda'r Trysorlys. Cytunodd i ddarparu papur i'r pwyllgor yn egluro sut mae fformiwla Barnett a'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant yn effeithio ar gyllideb y Pwyllgor Datblygu Economaidd a'r berthynas sy'n bodoli gyda'r Arian Strwythurol. **[Cam Gweithredu : Gweinidog D.E.]**
15. Cadarnhaodd y Gweinidog mai'r Weinyddiaeth Amddiffyn oedd wedi penderfynu

tynnu allan o’r cynllun prentisiaid yn Aberporth. Cytunodd hefyd i gadarnhau a oedd y Prif Weinidog wedi gwneud unrhyw ddatganiad neu sylw am gwmni Friction Dynamics yn cael ei brynu gan gwmni arall.

16. Mynegwyd pryder am y penderfyniad diweddar i ystyried cyllid gan y Loteri fel cyllid sector cyhoeddus a’r effaith y gallasai hyn ei gael ar benderfyniadau y bydd y Bwrdd Croeso yn eu gwneud cyn hir ar brosiectau neilltuol. Cadarnhaodd y Gweinidog bod eglurhad wedi ei dderbyn gan yr Adran Masnach a Diwydiant , ac nad yw hwn yn fater nawdd gwladwriaethol yn y prosiect dan sylw. Fodd bynnag, byddai’n cael effaith ar y Bwrdd Croeso ei hun oherwydd mae rheoliadau’r corff hwnnw’n datgan bod yn rhaid cyfeirio unrhyw fuddsoddiad mewn prosiect sydd â rhagor na 50% o’i gyllid yn deillio o’r sector cyhoeddus at Lywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol. Cytunodd y Gweinidog i sicrhau bod pob corff perthnasol yn cael ei hysbysu am y sefyllfa hon.
17. Gofynnodd aelod a oedd y cyhoeddiad diweddar a wnaed gan BA ei fod yn dileu rhai o’i wasanaethau rheolaidd o Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd wedi ei ddylanwadu arno o gwbl gan y diffyg buddsoddi gan Lywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol mewn cysylltiadau cludiant. Dywedodd y Gweinidog bod BA wedi gwneud y penderfyniad ar seiliau masnachol yn unig a bod sawl maes awyr rhanbarthol arall wedi eu heffeithio hefyd. Yr oedd ef yn hyderus y byddai cwmnïau awyrennau eraill yn cydio yn y trywyddau teithio hyn a chytunodd y byddai’n darparu gwybodaeth bellach i’r Pwyllgor ynghylch penderfyniad BA a hynny cyn gynted ag y bo modd. **[Cam Gweithredu : Gweinidog D.E.]** - dosbarthwyd hysbysiad i’r wasg i’r aelodau ar y diwrnod wedi’r cyfarfod.

**Eitem 6: Cofnodion Cyfarfodydd Blaenorol**

1. Cytunwyd bod Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mawrth yn rhai cywir.
2. Cytunodd y Pwyllgor i ofyn am ganiatâd gan y Pwyllgor Busnes i gael cyfarfodydd ffurfiol ychwanegol ar 30 Mai a 4 Gorffennaf.
3. Hysbysodd y Cadeirydd yr aelodau nad oedd wedi derbyn unrhyw sylwadau gan Gadeiryddion Pwyllgorau Pwnc eraill am y Rhaglen Waith i’r Dyfodol a bod y Gweinidog yn fodlon. Ymhen ychydig byddai’n anfon copïau drafft o’r Adroddiad Blynyddol at yr aelodau y tu allan i’r pwyllgor cyn ei drafod a’i gymeradwyo yn y cyfarfod nesaf.
4. Yna cafwyd trafodaeth ar yr ymweliad arfaethedig dan y Rhaglen Ymwelydd Gwirfoddol sydd gan Lywodraeth yr UDA. Yn gyffredinol yr oedd yr aelodau’n croesawu’r cynnig.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**